

Swyddog Ymgyrchoedd

Cyflog: £21,000 - £24,000/flwyddyn

Lleoliad: Yn ddelfrydol Aberystwyth, ond i'w drafod ar sail sefyllfa'r ymgeisydd llwyddiannus.

Ers ei sefydlu yn 1962, mae Cymdeithas yr Iaith wedi bod yn ymgyrchu i gryfhau a thyfu'r Gymraeg ac ymgyrchu'n bositif dros hawliau pawb i ddysgu, defnyddio a mwynhau'r iaith. Mae'r Gymdeithas yn disgrifio ei hun fel 'Cymdeithas o bobl sy'n gweithredu'n ddi-drais dros y Gymraeg a chymunedau Cymru fel rhan o'r chwyldro rhyngwladol dros hawliau a rhyddid'. Mudiad sy'n cael ei arwain gan ei aelodau gwirfoddol yw Cymdeithas yr Iaith, sy'n cyflogi nifer fach o staff i gydlynu a chefnogi gwaith yr aelodau.

Rydyn ni'n chwilio am Swyddog Ymgyrchoedd gweithgar a brwdfrydig i weithio gyda'n grwpiau ymgyrchu, rhanbarthau, celloedd ac aelodau ar draws y wlad i gefnogi ein hymgyrchoedd ac ysbrydoli eraill i gymryd rhan. Dyma swydd newydd sy'n gyfle gwych i ddatblygu eich sgiliau a chyfrannu at lwyddiant ymgyrchoedd y Gymdeithas ar draws sawl maes o bwys mewn cyfnod tyngedfennol i'r iaith a'n cymunedau.

Byddwch yn gyfrifol am gydlynu, ysgogi a chefnogi gweithgarwch ymgyrchu'r Gymdeithas ar draws Cymru, gan weithio i dynnu gwirfoddolwyr ac aelodau i mewn i'n gwaith. Byddwch yn cydweithio â'n Grwpiau Ymgyrchu i ddatblygu a hyrwyddo ein hymgyrchoedd cenedlaethol a lleol mewn meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys addysg, cymunedau, hawliau iaith a'r byd darlledu a digidol. Byddwch yn cydweithio â'n rhanbarthau a chelloedd ar draws Cymru i ysgogi gweithgarwch llawr gwlad ac ennill ymgyrchoedd ar faterion o flaenoriaeth leol.

Byddwch yn gweithio gyda'r nod o dynnu aelodau i mewn i'n hymgyrchoedd ac yn helpu swyddogion eraill i gyflawni'r nod hwn. Byddwch yn cydweithio â swyddogion gwirfoddol Cymdeithas yr Iaith yn ogystal â'r staff eraill i sicrhau dilyniant a gweithrediad effeithiol ein hymgyrchoedd a'n gweithgareddau ehangach.

Mae'r Gymraeg yn etifeddiaeth gyffredin i bob un sy'n dewis gwneud Cymru yn gartref iddyn nhw, a byddwch yn gyfrifol am ddatblygu gweithgarwch ymgyrchu er mwyn lledaenu neges y Gymdeithas ac ennyn cefnogaeth ymhlith cymunedau ar draws Cymru gyfan.

GOFYNIION

HANFODOL

1. Unigolyn brwdfrydig, gweithgar a threfnus.
2. Ymrwymiad personol i'r frwydr dros y Gymraeg, a dealltwriaeth drylwyr o ethos ac ymgyrchoedd y Gymdeithas.
3. Y gallu a'r parodrwydd i weithio ar eich liwt eich hun, gan reoli eich amser a blaenoriaethu'n effeithiol rhwng gwahanol ofynion.
4. Dealltwriaeth dda o faterion gwleidyddol yng Nghymru.
5. Profiad o gyfrannu at ymgyrchoedd llwyddiannus mewn unrhyw faes.
6. Sgiliau cyfrifiadurol da ynghyd â dealltwriaeth dda o'r cyfryngau cymdeithasol.
7. Profiad o drefnu digwyddiadau llwyddiannus.
8. Sgiliau cyfathrebu da, yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y Gymraeg.
9. Sgiliau rhyngpersonol cryf.
10. Y gallu i gyfathrebu yn effeithiol gydag aelodau a'r cyhoedd ac i ysbrydoli gweithgaredd ar lefel unigol, lleol a chenedlaethol.
11. Parodrwydd i gydweithio mewn tîm o swyddogion cenedlaethol eraill y mudiad.

DYMUNOL

1. Profiad o weithio ar becynnau meddalwedd dylunio a chysodi.
2. Profiad o weithio gyda gwirfoddolwyr.
3. Dealltwriaeth o ddamcaniaethau a thechnegau ymgyrchu, ymdrefnu cymunedol a gweithredu llawr gwlad.
4. Trwydded yrru ddilys a mynediad at gar.

CYFRIFOLDEBAU MANWL

- Datblygu trefniadaeth ymgyrchu leol a chenedlaethol y Gymdeithas ar draws ein meysydd ymgyrchu gwahanol;
- Hybu ymgyrchoedd cenedlaethol y Gymdeithas gyda'n grwpiau ymgyrchu Addysg, Cymunedau Cynaliadwy, Dyfodol Digidol, Hawl i'r Gymraeg a'r is-grŵp Iechyd;
- Hybu ymgyrchoedd rhanbarthol a lleol y Gymdeithas a chefnogi aelodau i ymateb i faterion sy'n codi'n lleol yn ein rhanbarthau, sef Gwynedd-Môn, Ceredigion, Caerfyrddin-Penfro, Glyndŵr (Clwyd), Powys a Morgannwg-Gwent;
- Datblygu perthynas gyda mudiadau perthnasol eraill sy'n ymgyrchu dros y Gymraeg a chymunedau Cymru;
- Cydlynu a chynnal digwyddiadau, megis gweithdai, a chydweithio gyda gwirfoddolwyr, er mwyn tynnu aelodau a chefnogwyr i mewn i'n hymgyrchoedd yn genedlaethol ac yn lleol;
- Trefnu cyfarfodydd, digwyddiadau, raliâu a gweithredoedd uniongyrchol fel rhan o'n hymgyrchoedd;

- Mynychu cyfarfodydd rhanbarthau, celloedd a grwpiau ymgyrchu'r Gymdeithas yn ôl yr angen;
- Cydlynu gweithgarwch ymgyrchu megis deisebau, ymgyrchoedd ebyst, cynhyrchu deunyddiau polisi, creu nwyddau a threfnu stynts;
- Cefnogi'r gwaith o drefnu gigs a digwyddiadau cymdeithasol a chodi arian;
- Cyfrannu at reoli a diweddarau cyfryngau cymdeithasol a gwefan y Gymdeithas;
- Cefnogi gwirfoddolwyr i ddatblygu eu sgiliau a hyder wrth ymgyrchu;
- Unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill yn ôl cyfarwyddyd Senedd y Gymdeithas.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Cynigir cyflog ar raddfa £21,000-£24,000 y flwyddyn. Disgwylir penodi ar waelod y raddfa oni bai bod gan yr ymgeisydd brofiad perthnasol helaeth.

Swydd llawn amser yw hon (37.5 awr yr wythnos), ond ystyrir ceisiadau gan ymgeisydd i weithio'n rhan amser neu rannu swydd. Bydd gofyn gweithio oriau hyblyg, tu allan i oriau gwaith arferol, gan gynnwys o leiaf un dydd Sadwrn y mis ar gyfer cyfarfodydd Senedd y Gymdeithas, a mynychu rhai pwyllgorau fin nos. Yn ogystal, disgwylir presenoldeb mewn gwyliau megis Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol, a digwyddiadau a drefnir gan y Gymdeithas. Caniateir amser yn ôl yn lle'r oriau a weithiwyd.

Cytundeb: Cynigir y swydd newydd hon am gyfnod o 12 mis i ddechrau, ond gyda'r potensial i ymestyn hyn am gyfnod hirach. Y dyhead fydd gweld y swydd yn llwyddo a bydd Senedd y Gymdeithas yn cefnogi'r aelod o staff i ddatblygu'r gwaith a gwerthuso'r rôl newydd.

Lleoliad: yn ddelfrydol Aberystwyth, ond i'w drafod ar sail sefyllfa'r ymgeisydd llwyddiannus.

Bydd y Swyddog Ymgyrchoedd yn atebol i Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymdeithas a Senedd y Gymdeithas.

Dyddiad cau: dydd Gwener, 24 Medi 2021 am 12:00 (hanner dydd).

Dyddiad cyfweld: i'w gadarnhau (dros Zoom)

Dylid anfon ceisiadau at post@cymdeithas.cymru gyda'r testun '**Cais - Swyddog Ymgyrchoedd**', gan amgáu CV gyda manylion dau ganolwr, ynghyd â llythyr cais (dim hirach na 2 dudalen) sy'n nodi'n glir sut rydych yn bodloni prif ofnion y swydd.

Os hoffech sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r rôl, mae croeso i chi e-bostio mabli@cymdeithas.cymru.